# Enghreifftiau o destun perswadio -Y nodweddion cyffredin

**Meini prawf llwyddiant**

- Ydy'r ysgrifennu yn dal sylw'r darllenydd?
- Ydy'r ffeithiau'n adeiladu dadl gref?
- Ydy safbwynt yr ysgrifennwr yn gwbl glir ac yn argyhoeddi?
- Oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r ddadl?
- Ydy'r darn yn debygol o berswadio'r darllenydd i gytuno neu i weithredu?

Amser presennol

Iaith rethregol, emosiynol

Paragraffau yn aml yn dechrau â brawddeg bynciol

Cysyllteiriau rhesymegol yn bennaf

Fodd bynnag eto i gyd
oherwydd
dengys hyn

Datganiad agoriadol yn cyflwyno'r prif syniad

Cyfres o bwyntiau yn cefnogi'r ddadl

Crynodeb terfynol

Ailadrodd

Defnyddio ffurf i greu effaith:

Newid y ffont

Is-benawdau

## Araith - 'Y Daith i'r Dyfodol'

Bobol Tryweryn. Rydyn ni yma heddiw i esbonio'r sefyllfa i chi. Ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, mae dinasoedd ar hyd a lled Prydain wedi dioddef, ac yn ceisio ail adeiladu, er lles y dyfodol. Yn sgil hynny, mae mwy o bobl yn byw ac yn gweithio'n galed i ddatblygu dinas newydd lewyrchus. Bydd hyn yn ychwanegu at les yr economi, bydd diweithdra yn lleihau a busnesau yn ffynnu.

Does dim dwywaith, mae rôl gyda chi yn hyn i gyd! Drwy gydweithio, gallwn ddarparu dŵr glân i'r gweithwyr a'r teuluoedd niferus sydd yn Lerpwl yn barod a'r rhai sydd i ddod. Yn bendant, bydd pawb yn elwa o'r fenter gyffrous yma.

Rydym yn awyddus i wneud y gorau er lles y dyfodol. Gwnawn dalu'n hael am y tir a thalu iawndal am y symud. Gwnawn adeiladu tai modern yn Frongoch i'r rhai a fydd yn ddigartref ac ysgol newydd i'ch plant. Gwnawn sicrhau bod y pentrefi cyfagos yn ddiogel.

Ydych chi am edrych i'r dyfodol? Ydych chi am fanteisio ar y cyfle i symud ymlaen? Ydych chi am helpu eich cyd-ddynion mewn cyfnod o gyfyng-gyngor?

Mae digwyddiadau'r blynyddoedd diwethaf yn ein **gorfodi** ni i gyd i addasu, i ddatblygu ac i gydweithio wrth gynllunio i'r dyfodol. Gyda'n gilydd gallwn ddiwallu anghenion pobl Lerpwl a rhoi cyfle cyffrous am ddechreuad newydd i bobl Capel Celyn.

Datblygwyd gan Lisa Hearne a Mari Owen o Sgerbydau Sue Palmer a "Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm" (LICC; Mawrth 2010)

# Perswadio

**Pwrpas:**

Perswadio'r darllenydd i gytuno; dadlau o blaid un safbwynt

**Cynulleidfa**
Rhywun rydych chi'n ceisio dylanwadu arno/arni

**Dulliau o baratoi/cynllunio**

- Athro/athrawes yn modelu ysgrifennu testunau perswadio gan dynnu sylw at strwythurau posibl
- Chwarae rôl/efelychu digwyddiadau lle mae pobl yn trafod materion, e.e. cyfarfod cyhoeddus, dadl yn y cyngor, llys barn
- Ymchwilio i'r mater dan sylw, a'r dysgwr yn gwneud nodiadau ac yn eu trefnu i ddangos y prif bwyntiau tystiolaeth/ymhelaethu – ar ffurf diagram corryn neu fap meddwl o bosib
- Penderfynu ar y ffurf ysgrifennu sydd fwyaf addas i'r gynulleidfa ac i'r pwrpas

**Nodweddion ieithyddol nodweddiadol:**

- Ysgrifennu yn yr amser presennol
- Gellir defnyddio iaith emosiynol, dulliau rhethregol, hanesyn neu gyfarch y darllenydd yn uniongyrchol (Wyddoch chi ...?) i gryfhau'r perswâd
- Cysyllteiriau/ymadroddion rhesymegol yn bennaf yn hytrach na rhai amser, e.e. fodd bynnag, oherwydd, dengys hyn ...
- Fel arfer yn defnyddio datganiad agoriadol sy'n cyflwyno'r prif syniad, yna, cyfres o bwyntiau sy'n cefnogi'r ddadl a chrynodeb terfynol ac ailadrodd y datganiad agoriadol
- Gellir defnyddio is-benawdau, ffontiau gwahanol a nodweddion gweledol eraill i greu effaith

**Strwythur nodweddiadol:**

- Trefn resymegol (emosiynol yn yr achos hwn)
- Cyfres o bwyntiau sy'n cyfleu un safbwynt
- Paragraffau yn aml yn dechrau â brawddeg bynciol

**Cyd-destunau posib:**

- Ymgyrch i roi cyhoeddusrwydd i berfformiad ysgol
- Llyfryn am amgueddfa leol neu fan diddorol
- Araith yn cyflwyno un ochr o ddadl
- Taflen hybu iechyd
- Ymgyrch ynghylch diogelwch ffyrdd neu gefnogi elusen
- Erthygl yn mynegi safbwynt, e.e. ar fater lleol
- Llythyr at bapur newydd yn mynegi barn ar fater yn y newyddion

**Meini prawf llwyddiant:**

- Ydy'r ysgrifennu'n dal sylw'r darllenydd?
- Ydy'r ffeithiau'n adeiladu dadl gref?
- Ydy safbwynt yr ysgrifennwr yn gwbl glir ac yn argyhoeddi?
- Oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r ddadl?
- Ydy'r darn yn debygol o berswadio'r darllenydd i gytuno neu i weithredu?